O F F E R Y N N A U  S T A T U D O L
C Y M R U

# 2011 Rhif 1310 (Cy. 162)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

# Gorchymyn Cefnffordd yr A483 (Cyffordd 4, y Ffyrdd Ymuno ac Ymadael Tua'r Gogledd a'r Ffordd Ymadael Tua'r De, Wrecsam) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2011

*Gwnaed 23 Mai 2011*

*Yn dod i rym 1 Mehefin 2011*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd yr A483 Abertawe i Fanceinion (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arnynt.

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoli Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall, drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn**(2)**:

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 1 Mehefin 2011. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A483 (Cyffordd 4, y Ffyrdd Ymuno ac Ymadael Tua'r Gogledd a'r Ffordd Ymadael Tua'r De, Wrecsam) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2011.

**2.** —(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" *("exempted vehicle")* yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio mewn cysylltiad â'r gwaith sydd wedi arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr "cyfnod y gwaith" *("works period")* yw'r cyfnod sy'n dechrau am 20:00 o'r gloch ar 1 Mehefin 2011 ac sy'n dod i ben pan fydd yr arwyddion traffig dros dro wedi eu tynnu oddi yno'n derfynol;